



## Biliau ar gyfer Cydsyniad Brenhinol

21 Hydref 2024

### Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 24 Medi, pan wnaethoch ofyn:

*Sec. 115 of the Government of Wales Act 2006 (cap. 32) provides that the Presiding Officer is responsible for submitting Bills for the Royal Assent.*

*Therefore, I am writing pursuant to the Freedom of Information Act 2000 to request the following, relating to all six of the Acts which have received the Assent this year (to date), viz.*

- 1. any letters or submissions from Y Llywydd to His Majesty requesting the Assent;*
- 2. any letters or similar communications ancillary to the main submission, for example about the mechanics of the process;*
- 3. any letters or similar communications from His Majesty or the Royal Household informing Y Llywydd that the Assent has been signified;*
- 4. any letter or certificate from the Clerk to the Senedd certifying the date he received the sealed Letters Patent (per sec. 115(4));*
- 5. any letters or communications to the National Library of Wales, and the Queen's Printer, from the Clerk or any other person concerning the preservation of the Letters Patent and the Official Print of the Act (see, e.g. sec. 115(5E)).*

Gweler ein hymateb isod.

Gallaf gadarnhau bod gennym wybodaeth mewn perthynas â rhannau 1, 2 a 3 o'ch cais. Fodd bynnag, ni wneir datgeliad oherwydd bod y wybodaeth sydd gennym wedi'i heithrio

Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd, CF99 1SN

Senedd Cymru  
Cardiff Bay  
Cardiff, CF99 1SN  
Ffôn/Tel: 0300 200 6544

E-bost/Email: [Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru](mailto:Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru)  
[Information-request@senedd.wales](mailto:Information-request@senedd.wales)

rhag ei datgelu o dan adran 37(1)(a) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae adran 37(1)(a) yn ymdrin â chyfathrebu gyda'r Sofran neu ar ei ran. Mae'n eithriad absoliwt o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth sydd, at ddibenion ymarferol, yn golygu bod gwybodaeth sy'n perthyn i'r categori o fod yn ohebiaeth â'r brenin, neu ar ei ran, wedi'i heithrio'n awtomatig. Nid oes angen cynnal prawf budd y cyhoedd.

Nid ydym yn cadw'r wybodaeth benodol y gofynnir amdani gennych yn rhannau 4 a 5 o'ch cais. Fodd bynnag, rydym yn cadw gwybodaeth sy'n debyg o ran ei natur ac amlinellir manylion hynny isod.

Mae adran 16 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus, fel y Senedd, i roi cyngor a chymorth i ymgeiswyr pan fyddant yn gwneud ceisiadau. Er mwyn eich galluogi i ddeall ein hymateb i rannau 4 a 5 o'ch cais, mae esboniad byr yn dilyn, o'r camau a gymerwyd i alluogi deddfwriaeth i dderbyn Cydsyniad Brenhinol.

Mae'r broses o roi Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf y Senedd yn weithdrefn statudol a nodir yn adrannau 115 a 116 o [Deddf Llywodraeth Cymru 2006](#) ac yng [Ngorchymyn Senedd Cymru \(Llythyrau Patent a Chyhoeddiadau\) 2021](#). Mae'n cynnwys nifer o gamau, fel a ganlyn:

- a. Paratoi Llythyrau Patent gan Lywodraeth Cymru;
- b. Cyflwyno'r Llythyrau Patent gan y Llywydd i'r Sofran;
- c. Arwyddo'r Llythyrau Patent gan y Sofran;
- d. Gosod Sêl Cymru gan Geidwad Sêl Cymru (h.y. y Prif Weinidog);
- e. Dyddio'r Llythyrau Patent; ac
- f. Hysbysiad o'r Llythyrau Patent sydd wedi'u harwyddo, eu selio a'u ddyddio at Glerc y Senedd.

O ran rhan 4 o'ch cais, nid yw Clerc y Senedd yn cynhyrchu unrhyw lythyr neu dystysgrif (fel y cyfeirir yn eich cais). Fodd bynnag, unwaith y rhoddir Cydsyniad Brenhinol, mae'r Clerc yn gwneud datganiad i'r perwyl hwnnw. Cyhoeddir y datganiadau hynny ar ein gwefan: [Chwilio \(senedd.cymru\)](#): yn y bar chwilio, defnyddiwch y term 'Cydsyniad Brenhinol'.

O ran rhan 5, mae copi ardystiedig o'r Ddeddf yn cael ei lwytho i borth [legislation.gov.uk](https://legislation.gov.uk), sy'n cael ei reoli gan yr Archifau Cenedlaethol. Mae'r cyflwyniad electronig hwn yn cynhyrchu derbyniad electronig. Gellir gweld copïau o'r derbynebau ar gyfer y ddeddfwriaeth a gwmpesir gan eich cais ar [dudalennau 4-9](#) o'r ymateb hwn.

Rydym wedi golygu enw staff Comisiwn y Senedd o'r derbynebau gan fod hynny'n ddata personol at ddibenion GDPR y DU. Byddai datgeliad o'r wybodaeth honno, yn ein barn ni, yn mynd yn groes i'r egwyddor gyntaf ar ddiogelu data fel y'i nodir yn Erthygl 5 o GDPR y DU. Felly, mae'r wybodaeth wedi'i heithrio o dan adran 40(2) ac adran 40(3A)(a) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Nodir manylion y rhesymau dros y casgliad hwn yn yr [atodiad](#).

Yn gywir

**Buddug Saer**  
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**  
**Senedd Cymru**

# Derbynebion electronig o'r Archifau Cenedlaethol

**(Staff Comisiwn y Senedd | Senedd Commission Staff)**

---

**From:** no-reply@publishing.legislation.gov.uk  
**Sent:** 20 September 2024 10:24  
**To:** [REDACTED]@senedd.wales  
**Subject:** Internet - PUBLICATION IN PROGRESS: ASC2 Local Government Finance (Wales) Act 2024

Dear Colleague

Thank you for submitting your Act of Senedd Cymru Bundle to the TSO Publishing Team. Local Government Finance (Wales) Act 2024 has been successfully submitted for publication.

## Bundle Documents

- English Language CLML
- Dual Language PDF
- Welsh Language CLML
- English Language PDF
- Welsh Language PDF

This system enables you to [track the progress of your bundle](#) to see where it is in the process. Email notifications will be sent to you as your bundle progresses and if further action is required.

Contact the [TSO Publishing team](#) should you require further information. You may be asked to quote reference: 2024-09-20/1008

**(Staff Comisiwn y Senedd | Senedd Commission Staff)**

---

**From:** no-reply@publishing.legislation.gov.uk  
**Sent:** 12 June 2024 11:14  
**To:** [REDACTED]@senedd.wales  
**Subject:** Internet - PUBLICATION IN PROGRESS: ASC2 Infrastructure (Wales) Act 2024

Dear Colleague

Thank you for submitting your Act of Senedd Cymru Bundle to the TSO Publishing Team. Infrastructure (Wales) Act 2024 has been successfully submitted for publication.

**Bundle Documents**

- English Language CLML
- Dual Language PDF
- Welsh Language CLML
- English Language PDF
- Welsh Language PDF

This system enables you to [track the progress of your bundle](#) to see where it is in the process. Email notifications will be sent to you as your bundle progresses and if further action is required.

Contact the [TSO Publishing team](#) should you require further information. You may be asked to quote reference: 2024-06-12/1001

**(Staff Comisiwn y Senedd | Senedd Commission Staff)**

---

**From:** no-reply@publishing.legislation.gov.uk  
**Sent:** 22 February 2024 10:34  
**To:** [REDACTED]@senedd.wales  
**Subject:** Internet - PUBLICATION IN PROGRESS: ASC2 Health Service Procurement (Wales) Act 2024

Dear Colleague

Thank you for submitting your Act of Senedd Cymru Bundle to the TSO Publishing Team. Health Service Procurement (Wales) Act 2024 has been successfully submitted for publication.

**Bundle Documents**

- English Language CLML
- Dual Language PDF
- Welsh Language CLML
- English Language PDF
- Welsh Language PDF

This system enables you to [track the progress of your bundle](#) to see where it is in the process. Email notifications will be sent to you as your bundle progresses and if further action is required.

Contact the [TSO Publishing team](#) should you require further information. You may be asked to quote reference: 2024-02-22/1005

**(Staff Comisiwn y Senedd | Senedd Commission Staff)**

---

**From:** no-reply@[REDACTED].gov.uk  
**Sent:** 07 March 2024 11:01  
**To:** [REDACTED]@senedd.wales  
**Subject:** Internet - PUBLICATION IN PROGRESS: ASC2 Environment (Air Quality and Soundscapes) (Wales) Act 2024

Dear Colleague

Thank you for submitting your Act of Senedd Cymru Bundle to the TSO Publishing Team. Environment (Air Quality and Soundscapes) (Wales) Act 2024 has been successfully submitted for publication.

**Bundle Documents**

- English Language CLML
- Dual Language PDF
- Welsh Language CLML
- English Language PDF
- Welsh Language PDF

This system enables you to [track the progress of your bundle](#) to see where it is in the process. Email notifications will be sent to you as your bundle progresses and if further action is required.

Contact the [TSO Publishing team](#) should you require further information. You may be asked to quote reference: 2024-03-07/1008

**(Staff Comisiwn y Senedd | Senedd Commission Staff)**

---

**From:** no-reply@publishing.legislation.gov.uk  
**Sent:** 20 September 2024 10:14  
**To:** [REDACTED]@senedd.wales  
**Subject:** Internet - PUBLICATION IN PROGRESS: ASC2 Elections and Elected Bodies (Wales) Act 2024

Dear Colleague

Thank you for submitting your Act of Senedd Cymru Bundle to the TSO Publishing Team. Elections and Elected Bodies (Wales) Act 2024 has been successfully submitted for publication.

**Bundle Documents**

- English Language CLML
- Dual Language PDF
- Welsh Language CLML
- English Language PDF
- Welsh Language PDF

This system enables you to [track the progress of your bundle](#) to see where it is in the process. Email notifications will be sent to you as your bundle progresses and if further action is required.

Contact the [TSO Publishing team](#) should you require further information. You may be asked to quote reference: 2024-09-20/1006



**(Staff Comisiwn y Senedd | Senedd Commission Staff)**

---

**From:** no-reply@publishing.legislation.gov.uk  
**Sent:** 27 June 2024 12:43  
**To:** [REDACTED]@senedd.wales  
**Subject:** Internet - PUBLICATION IN PROGRESS: ASC2 Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024

Dear Colleague

Thank you for submitting your Act of Senedd Cymru Bundle to the TSO Publishing Team. Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024 has been successfully submitted for publication.

**Bundle Documents**

- English Language CLML
- Dual Language PDF
- Welsh Language CLML
- English Language PDF
- Welsh Language PDF

This system enables you to [track the progress of your bundle](#) to see where it is in the process. Email notifications will be sent to you as your bundle progresses and if further action is required.

Contact the [TSO Publishing team](#) should you require further information. You may be asked to quote reference: 2024-06-27/1003

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon â sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru  
Llywodraethu a Sicrwydd  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF

## Atodiad

Mae'r wybodaeth a geisir yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol sydd wedi'i gynnwys yn GDPR y DU, sef:

"any information relating to an identified or identifiable natural person ('data subject'); an identifiable natural person is one who can be identified, directly or indirectly, in particular by reference to an identifier such as a name, an identification number, location data, an online identifier or to one or more factors specific to the physical, psychological, genetic, mental, economic, cultural or social identity of that natural person".

Mae gwybodaeth personol wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) a 40(3A)(a) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mewn achosion lle byddai ei datgelu yn mynd yn groes i o leiaf un o'r egwyddorion diogelu data yn GDPR y DU. Yr egwyddor sy'n berthnasol ar yr achlysur hwn yw'r egwyddor gyntaf o ran diogelu data.

Mae'r egwyddor diogelu data cyntaf fel y nodir yn Erthygl 5 o GDPR y DU yn nodi:

"Personal data shall be processed lawfully, fairly and in a transparent manner in relation to the data subject ('lawfulness, fairness and transparency')".

Wrth asesu a fyddai datgelu yn deg, rydym wedi ystyried canlyniadau datgelu, disgwyliadau rhesymol yr unigolyn dan sylw a'r cydbwysedd rhwng ei hawliau ac unrhyw fudd dilys wrth ddatgelu'r wybodaeth. Ein casgliad yw y byddai'n annheg datgelu'r wybodaeth.

Nid oes disgwyliad rhesymol gan yr unigolyn sy'n gweithio o fewn Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth y byddai eu data personol yn cael eu datgelu gan Gomisiwn y Senedd. Nid oes gan eu rôl unrhyw nodweddion a fyddai'n cyfiawnhau datgelu eu henw o dan yr amgylchiadau hyn. Er enghraifft, nid yw'r rôl yn un uwch neu'n un strategol neu'n un sy'n wynebu'r cyhoedd. Am y rhesymau uchod, rydym o'r farn y byddai datgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn annheg ac, felly, yn groes i egwyddor gyntaf diogelu data.

Er gwaethaf ein barn ynghylch sicrhau tegwch, aethom ymlaen i ystyried Erthygl 6 o GDPR y DU. Nid yw unrhyw un o'r amodau yn Erthygl 6 yn berthnasol, heblaw Erthygl 6(1)(f), sy'n caniatáu i wybodaeth bersonol gael ei phrosesu ar yr amod a ganlyn:

"Processing is necessary for the purposes of legitimate interests pursued by the controller or by the third party, except where such interests are overridden by the interests or fundamental rights and freedoms of the data subject which require protection of personal data, in particular where the data subject is a child."

Mae'r amod hwn yn cynnwys prawf tair rhan:

- Rhaid bod datgelu'r wybodaeth o fudd cyhoeddus dilys;
- Rhaid i'r datgeliad fod yn angenrheidiol i sicrhau budd y cyhoedd; ac
- Ni ddylai'r datgeliad ddiystyru buddiannau, hawliau sylfaenol na rhyddid y pynciau data.

Rydym wedi ystyried yn ofalus y buddiannau perthnasol, sy'n cynnwys: cyfrifoldebau'r Senedd o dan GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018; yr hawl i gael mynediad at y wybodaeth sydd gan awdurdodau cyhoeddus; natur rolau'r unigolion a'r hawl i breifatrwydd; a budd y cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth hon.

Mae budd cyhoeddus, wrth gwrs, mewn tryloywder ac atebolrwydd cyffredinol o ran gweithrediad awdurdodau cyhoeddus. Fodd bynnag, byddai datgelu enwau a chyfeiriad e-bost yr unigolyn dan sylw, yn ein barn ni, yn ddiangen i gyflawni ein rhwymedigaethau i dryloywder.

Er bod budd cyhoeddus dilys mewn datgelu gwybodaeth, nid yw'r agweddau eraill ar y prawf tair rhan yn cael eu bodloni a byddai datgeliad gan Gomisiwn y Senedd yn anghyfreithlon. Wrth ystyried gwybodaeth bersonol, rydym o'r farn bod yn rhaid cael

cyfiawnhad clir a chymhellol dros ddatgelu sy'n diystyru hawliau a rhyddid unigol ac, ar yr achlysur hwn, nid ydym wedi gallu canfod cyfiawnhad o'r fath.